# Rheoliad arfaethedig ar bysgodfeydd rhwydi drifft

**Y Diweddaraf am Bolisi'r UE (EU2014.02)** **Mehefin 2014**

## Cyflwyniad

Ar 14 Mai 2014, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **reoliad drafft ar wahardd rhwydi drifft COM (2014)265** , sy'n fesur technegol fel rhan o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu'r broses o ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a gytunwyd yn 2013.

Mae'r cynigion yn dilyn ymgynghoriad ar y we (a lansiwyd ym mis Mawrth 2013 ac a ddaeth i ben ar 15 Medi 2013) a chyhoeddi **'map ffordd'** ym mis Ebrill 2013, a oedd yn adolygu rheoliadau presennol yr UE ar bysgodfeydd rhwydi drifft a'r effeithiau a gânt ar yr ecosystem forol.

Yn gyffredinol, byddai'r cynigion yn gwahardd pysgodfeydd rhwydi drifft yn llwyr yn nyfroedd yr UE ni waeth beth yw maint y rhwyd a ddefnyddir. Mae'r cynigion yn diddymu **Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 894/97**, a oedd yn caniatáu defnyddio rhwydi drifft o dan 2.5km o hyd.

Yn ôl y Comisiwn, y rhesymeg dros y cynnig yw'r anawsterau wrth orfodi gohiriadau rhyngwladol ar bysgodfeydd rhwydi drifft cefnforol ar raddfa fawr oherwydd bod rhai Aelod-wladwriaethau yn parhau i wrthod cydymffurfio â rheoliad presennol y CE.

## Crynodeb o'r cynnig

Nod y Rheoliad yw mynd i'r afael â'r anawsterau gorfodi trwy gau bylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y Rheoliad yn angenrheidiol er mwyn i'r UE gydymffurfio â'i rwymedigaethau rhyngwladol i reoleiddio pysgodfeydd rhwydi drifft yn gynaliadwy a mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol a chadwraeth.

Byddai'r Rheoliad arfaethedig yn dod i rym ar 1 Ionawr 2015 a byddai'n cyflwyno gwaharddiad llwyr ar ddal unrhyw adnodd biolegol morol gan ddefnyddio rhwydi drifft. Mae hefyd yn gwahardd cadw unrhyw fath o rwyd ddrifft ar fwrdd cychod pysgota.

Rhoddir diffiniad diwygiedig o rwydi drifft hefyd. Yn ôl y Rheoliad, mae'r term 'rhwyd ddrifft' yn cyfeirio at:

> a net made up of one or more walls of netting, hung jointly in parallel on the headline(s), held on the water surface or at a certain distance below it by floating devices and drifting with the current, either independently or with the boat to which it may be attached. It may be equipped with devices aiming to stabilise the net or to limit its drift such as a sea-anchor or an anchor on the bottom attached at one single end of the net. (Erhygl 2.2)

Mae'r Comisiwn yn datgan bod y cynigion yn seiliedig ar reoli pysgodfeydd yn rhagofalus, oherwydd bod risg uchel y caiff rhywogaethau a warchodir eu rhwydo'n ddamweiniol ac oherwydd bod hyn yn cael ei fonitro'n wael gan Aelod-wladwriaethau[1].

Cynhaliodd y Comisiwn Asesiad Effaith a oedd yn ymchwilio i bedwar opsiwn polisi:

**01.** cynnal y status quo

**02.** camau gweithredu'n ymwneud â mesurau technegol a/neu reoli i wella dulliau rheoli a chysondeb amgylcheddol

**03.** gwaharddiad dewisol ar bysgodfeydd rhwydi drifft sydd wedi'u nodi fel y rhai mwyaf niweidiol i rywogaethau a warchodir

---

[1] COM (2014) 0265

**04.** gwaharddiad llwyr ar bysgodfeydd rhwydi drifft

Oherwydd nad oedd y pysgodfeydd rhwydi drifft wedi'u monitro'n ddigonol, ac oherwydd bod y samplau'n gyfyngedig mewn dwy astudiaeth flaenorol, mae'r Comisiwn yn nodi bod hynny wedi bod yn rhwystr rhag cynnal dadansoddiad, seiliedig ar ddangosyddion, o effeithiau amgylcheddol y pysgodfeydd[2].

Mae'r Comisiwn, felly, wedi mabwysiadu opsiwn 4 fel ei opsiwn gorau gan ei fod yn bodloni i'r graddau mwyaf, y berthnasedd, yr effeithiolrwydd, yr effeithlonrwydd a'r meini prawf cydlyniant tra'i fod yn darparu'r canlyniad gorau o ran effaith amgylcheddol ac yn llai o faich gweinyddol. Cafodd Opsiwn 4 ei gefnogi gan 52% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus[3].

### Yr effaith bosibl

Mae'r Comisiwn yn amcangyfrif y bydd y Rheoliad yn effeithio ar tua 840 o longau sy'n gweithredu yn nyfroedd yr UE (heb gynnwys y Môr Baltig). O'r llongau hyn, credir bod y mwyafrif yn defnyddio rhwydi drifft yn dymhorol a'u bod yn gweithredu mewn pysgodfeydd sydd ag offer cymysg[4]. Dywedir mai amrywiol yw pwysigrwydd y rhwydi drifft i'r pysgodfeydd.

Mae'r Comisiwn yn amcangyfrif bod cyfanswm gwerth y rhwydi drifft graddfa fach ar gyfer yr amcangyfrif o 250 o longau yn y DU (y mae oddeutu 70 ohonynt yn gweithredu yn nyfroedd Cymru) yn cynrychioli tua 0.14% o gyfanswm gwerth y pysgod a ddelir yn y DU yn 2011[5]. Yn yr Eidal, lle mae tua 100 o longau'n defnyddio rhwydi drifft, mae pwysigrwydd y rhwydi'n isel yn genedlaethol, ond mae'r gwerth yn amrywio o 20% i 55% o'r trosiant ar gyfer rhai llongau ac mae'r elw a gynhyrchir gan y defnydd o rwydi drifft yn 22% ar gyfartaledd ar draws holl bysgodfeydd rhwydi drifft yr Eidal[6]. Mae dadleuon tebyg i'r rhai a wnaed am yr Eidal wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch pysgodfeydd rhwydi drifft yng Nghymru ac yn y DU.

Mae'r Comisiwn yn datgan:

> While it cannot be excluded that the ban may affect some of the vessels carrying out these fisheries, the overall social-economic impact of the total ban is therefore considered irrelevant at national and sub-regional level.

## Cefndir y cynnig

### Y fframwaith deddfwriaethol

Mae fframwaith ar gyfer rheoli pysgodfeydd a gwarchod adnoddau biolegol morol yn nyfroedd yr UE yn cael ei sefydlu o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP)[7]. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyfrannu at warchod yr amgylchedd morol a rheoli'n gynaliadwy rywogaethau sy'n cael eu hecsbloetio'n fasnachol. Mae'n ofyniad pellach bod effeithiau negyddol gweithgareddau pysgota yn cael eu lleihau a bod cyn lleied â phosibl o rywogaethau a warchodir yn cael eu dal yn ddamweiniol, megis crwbanod môr, adar môr a dolffiniaid.

Mae hefyd yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau weithredu dulliau rhagofalus tuag at ecsbloetio stociau pysgod oherwydd cytundebau rhyngwladol yr UE, fel yr adlewyrchir yng Nghytundeb Stociau Pysgod y Cenhedloedd Unedig[8].

Am fod pryderon bod rhywogaethau cefnforol mudol iawn, fel tiwna a physgod cleddyf, yn cael eu dal yn ddamweiniol mewn pysgodfeydd rhwydi drifft, galwodd nifer o Benderfyniadau Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (UNGA) am wahardd rhwydi drifft cefnforol ar raddfa fawr (a ddiffinnir fel dros 2.5km o hyd)[9]. Yn unol â hynny, yn yr 1990au

[2] *Ibid*
[3] **COM (2014) 0265**
[4] *ibid*
[5] *ibid*
[6] *ibid*

[7] ***OJ L 354/22, 28.12.2013***
[8] *OJ L 189, 03.07.1998*
[9] **COM (2014) 0265**

datblygodd y UE gyfres o ddarpariaethau i weithredu gwaharddiad ar rwydi drifft sydd dros 2.5km o hyd.

Yn dilyn hynny, ers 2002 gwaharddwyd defnyddio rhwydi drifft neu eu cadw ar fwrdd llong, ni waeth beth yw eu maint, a fwriadwyd ar gyfer dal rhywogaethau a warchodir fel tiwna a physgod cleddyf a restrir yn Atodiad VIII o **EC Rhif 894/97**[10]. Yn ogystal, roedd **EC Rhif 2187/2005** yn gwahardd defnyddio neu gadw ar fwrdd llong, unrhyw fath o rwydi drifft yn y Môr Baltig, y Belts a'r Sound o 1 Ionawr 2008[11].

### Cau bylchau

Yn ôl y Comisiwn, mae gwendidau a bylchau yn y rheoliadau presennol ac mae natur graddfa fach, wasgaredig pysgota gyda rhwydi drifft yn ei gwneud yn hawdd i gychod osgoi rheolau a dianc rhag reoliadau[12]. Drwy ganiatáu i gychod gadw gwahanol offer ar eu bwrdd, mae'n bosibl i weithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio ddefnyddio rhwydi drifft yn anghyfreithlon i ddal rhywogaethau a warchodir, fel tiwna, pysgod cleddyf a siarcod, a honni iddynt eu dal gydag offer arall (ee longlines). Mae hyn hefyd yn her i'r awdurdodau rheoli orfodi'r rheolau.

Mae defnyddio rhwydi drifft yn anghyfreithlon i dargedu rhywogaethau a warchodir wedi arwain at ddau ddyfarniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop yn erbyn Ffrainc a'r Eidal[13].

Dywedodd Maria Damanaki, y Comisiynydd Ewropeaidd dros Faterion Morol a Physgodfeydd: [14] ,

Fishing with driftnets destroys marine habitats, endangers marine wildlife and threatens sustainable fisheries. I am convinced that the only way to eradicate this once and for all is to have clear rules which leave no room for interpretation. We need to close any possible loopholes and simplify control and enforcement by national authorities. This will in the end also save the livelihood of those fishermen which have applied the rules over the past years. The ban sends out a clear message that we no longer tolerate any irresponsible practices.

## ynt Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu ei safiad ar y cynnig mewn **Memorandwm Esboniadol**.

Mae Llywodraeth y DU yn gwrthod gwaharddiad llwyr ar rwydi drifft, gan ei ddisgrifio fel 'offeryn heb fin'. Yn lle hynny, mae wedi galw am ddull rhanbarthol o weithredu, sy'n seiliedig ar risg, fel bod y gwaith o fonitro a lliniaru ond yn cael ei anelu at bysgodfeydd nad ydynt yn cydymffurfio.  Maent yn ystyried y byddai gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol yn well o ran gwahardd y defnydd o rai rhwydi drifft yn gam mwy priodol, ac mae'n nodi'r darpariaethau rhanbartholi yn y PPC fel ffordd o dargedu dulliau lliniaru ar lefelau rhanbarthol neu leol.

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth y DU yn datgan nad yw'r cynnig mor berthnasol â hynny i bysgodfeydd rhwydi drifft y DU gan eu bod fel arfer yn defnyddio rhwydi byr o tua 200 metr o hyd ac yn cael eu defnyddio i dargedu pysgod heigiog am gyfnodau byr. Maent hefyd yn nodi na fu sgil-ddaliadau mewn rhwydi drifft ym mhysgodfeydd y DU yn broblem o gymharu â mathau eraill o offer (ee rhwydi drysu a maglu) ac felly, mae'n cwestiynu a fyddai newid i offer arall yn arwain at gyfraddau gwell o ran sgil-ddaliadau.

Mae Llywodraeth y DU yn awgrymu nad yw pysgodfeydd rhwydi drifft y DU yn cynrychioli'r problemau y mae'r Comisiwn yn ceisio mynd i'r afael â hwy, oherwydd bod y problemau hynny, gan mwyaf, yn gyfyngedig i Fôr y Canoldir.

[10] *ibid*
[11] *ibid*
[12] *ibid*
[13] **COM (2014) 0265**
[14] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***European Commission proposes full ban on driftnets***. (gwefan) [fel ar 19 Mehefin 2014]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'r cynnig yn gynnig plaen ac amhriodol. Mae'n nodi nad yw'r pysgodfeydd rhywdi drifft graddfa fach sy'n gweithredu yng Nghymru yn dwyn unrhyw debygrwydd i'r pysgodfeydd rhywdi drifft graddfa fawr sy'n gweithredu ym môr y Canoldir a'r Baltig lle mae'r problemau a nodwyd gan y Comisiwn yn bodoli.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod tua 70 o gychod yn defnyddio rhwydi drifft ar gyfer penwaig, draenogiaid y môr, hyrddiaid a gwahanol rywogaethau dyfnforol eraill sydd ar gael yn nyfroedd Cymru. Er mai'n dymhorol y mae'r pysgodfeydd hyn yn gweithredu'n bennaf, dywedodd Llywodraeth Cymru fod pysgod sy'n cael eu dal gyda rhwydi drifft yn rhan werthfawr o fywoliaeth pysgotwyr yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ychwanegu nad yw'r rhwydi drifft a ddefnyddir yn nyfroedd Cymru yn hwy na 200 metr o hyd oherwydd bod deddfwriaeth ar gael i reoli'r pysgodfeydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan nad oedd yn sylweddoli bod y Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi cynigion i wahardd yr holl bysgodfeydd rhwydi drifft. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU i ddarparu ymateb priodol.

## Ymateb y rhanddeiliaid

Mae sefydliadau pysgota y DU wedi mynegi pryder ynghylch y cynigion. Mae **Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Pysgotwyr (NFFO)** wedi awgrymu y byddai'r cynigion yn cau pob un o bysgodfeydd rhwydi drifft graddfa fach y DU ar gyfer penwaig, mecryll, lledod, draenogiaid y môr, eog, sardîns a hyrddiaid, gan gynnwys rhai a ardystiwyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol (MSC). Maent wedi disgrifio'r cynnig fel '**a throwback to the unreformed CFP** ', gan gyfeirio at y feirniadaeth a gafodd mesurau cyffredinol yr UE yn y gorffennol a arweiniodd at ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a chyflwyno darpariaethau rhanbartholi.

**Mewn llythyr at Maria Damanaki** , dywedodd Jerry Percy, cadeirydd y New Under Ten Fishermen (NUTFA), er bod NUTFA yn rhannu pryderon y Comisiwn ynghylch defnyddio rhwydi drifft ym Môr y Canoldir:

> This form of drift netting is distant, both geographically and metaphorically from the far smaller scale and environmentally acceptable use of drift nets in UK and adjacent waters.

Mae'r cynnig hefyd wedi cael ei feirniadu gan rai sefydliadau yn y sector cadwraeth. **Dywedodd Oceana bod agwedd y Comisiwn yn gamgymeriad**, er gwaethaf bwriadau cadarnhaol y cynnig. Yn benodol, mae Oceana yn pryderu y bydd y gwaharddiad llwyr yn cosbi miloedd o gychod pysgota crefftwrol cynaliadwy, yn hytrach na thargedu'r ychydig gychod sydd wedi parhau i bysgota gyda dulliau anghyfreithlon ac a ddylai fod wedi cael gwaharddiad swyddogol flynyddoedd yn ôl.

Dywedodd Maria Jose Cornax, rheolwr ymgyrch pysgodfeydd Oceana yn Ewrop:

> The same boats and same operators have been illegally fishing for decades. The time for ambiguous measures is over – now it's time to take action by blacklisting infractors.

Fodd bynnag, mae sefydliadau cadwraeth eraill wedi croesawu'r cynigion, a dywedodd Amanda Nickson, cyfarwyddwr Global Tuna Conservation:

The Commission's proposed regulation to ban outright the use of driftnets demonstrates a clear determination to end this environmentally damaging practice and to address illegal fishing of bluefin tuna in the Mediterranean Sea.

## Hynt y cynnig yn sefydliadau'r UE

***Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru wrth i'r trafodaethau barhau ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn glir.***

### Senedd Ewrop

Y Pwyllgor Pysgodfeydd (PECH) yw'r Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb yn Senedd Ewrop, a phenodwyd Renata Brianco yn Rapporteur. Awgrymodd y Rapporteur welliannau i'r gynnig mewn Adroddiad Drafft a gyhoeddwyd ar 30 Ionawr 2015.[15] Yn eu plith yr oedd y canlynol:

– gwahardd pob rhwyd ddrifft dros 2,500 metr, ond caniatáu defnydd parhaus o rwydi drifft llai, ar yr amod nad ydynt yn targedu'r rhywogaethau ar restr mewn Atodiad newydd.

– lle y defnyddir rhwydi drifft llai, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu goruchwylio drwy'r amser, bod ganddynt farcwyr neu fwiau i ddynodi eu safle, a bod rheidrwydd ar feistri ar gychod pysgota i gofnodi pryd y'u defnyddir ac a oedd sgil-ddalfa anfwriadol.

Disgwyliwyd pleidlais ar y rheoliadau drafft yn y Pwyllgor PECH ar 7 Mai 2015. Fodd bynnag, o ganlyniad i alwadau am i'r cynnig drafft gael ei wrthod yn llwyr, penderfynwyd y byddai'r cynnig yn cael ei anfon at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn Senedd Ewrop i gael ei farn. Ni phennwyd dyddiad newydd ar gyfer trafodaeth na phleidlais.

### Y Cyngor

Mae'r Cyngor heb gyrraedd sefyllfa negodi eto.

[15]Senedd Ewrop, **Adroddiad Drafft ar y cynnig am reoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y gwaharddiad ar bysgodfeydd rhwydi drifftio**, 30 Ionawr 2015 [fel ar 29 Mai 2015]

## Rhagor o wybodaeth


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Gregg Jones (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**)

**Ffôn:** 0032 2 226 6692

**Ffôn symudol:** 0044 7816 164455

Neu

Nia Seaton (**Nia.Seaton@cymru.gov.uk**)

**Rhif estyniad** 8987